# CANLLAW GYRFAOEDD



sportwales
chwaraeoncymru

# CYFLWYNIAD

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Rydym eisiau gweld cenedl iachach a mwy actif a gweld pob person ifanc yn cael dechrau gwych mewn bywyd fel eu bod yn gallu mynd ymlaen i fwynhau oes o chwaraeon.

Rydym hefyd yn gyfrifol am ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol i sefydliadau chwaraeon cymunedol a darparu'r cymorth gorau posibl i athletwyr addawol Cymru i gystadlu ar lwyfan y byd!

Yn Chwaraeon Cymru, mae gennym ni swyddi sy'n addas ar gyfer pob diddordeb, talent ac uchelgais ac efallai y cewch eich synnu gan yr hyn sydd gennym i'w gynnig...

# YN GYNTAF, CYFLWYNIAD I'N PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL AC YCHYDIG AM EI LWYBR I'R RÔL Y MAE YNDDI HEDDIW

**Swydd Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru yw arwain gwaith a staff Chwaraeon Cymru.**

Un elfen allweddol o'r swydd yw gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weld chwaraeon yn bwysig i bobl Cymru a'i bod yn sicrhau bod arian ar gael i ni fel
ein bod yn gallu buddsoddi mewn sefydliadau a chlybiau chwaraeon ledled y wlad.

Mae angen i'r Prif Swyddog Gweithredol wneud yn siŵr bod pawb yn Chwaraeon Cymru yn cytuno ar ble a pham rydym yn gwario'r arian cyhoeddus hwnnw a'n bod yn gwneud hynny yn y ffordd gywir.

Yn ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol, mae Brian yn cael ei wahodd i weld llawer o chwaraeon, ac nid yn unig yng Nghymru – mae wedi bod yn y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd, Gemau'r Gymanwlad a llawer o ddigwyddiadau mawr eraill, lle gall gwrdd â phobl allweddol o sefydliadau eraill i gymharu sut rydym yn gwneud ac a oes angen i ni wneud unrhyw newidiadau i'n gwaith.



## CLICIWCH I EDRYCH AM YRFAOEDD YN CHWARAEON CYMRU

- Y Ganolfan Genedlaethol
- Yr Athrofa
- Gwasanaethau Busnes
- Rheoli Perthnasoedd
- Llywodraethu
- Datblygu Partneriaid a Gwasanaethau
- Buddsoddiadau
- Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus
- Cyfathrebu
- Prentisiaethau a Chynlluniau Graddedigion

# Y GANOLFAN GENEDLAETHOL

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yw'r lle i fod ar gyfer cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored. Mae'n agored i'r cyhoedd ar gyfer dosbarthiadau ffitrwydd, aelodaeth campfa, chwaraeon raced, ystafelloedd cyfarfod a llety ac mae hefyd yn cael ei ddefnyddio gan fwy na 30 o gyrff rheoli chwaraeon Cymru. Mae'r ganolfan yn cynnal cystadlaethau rhyngwladol, gwersylloedd hyfforddi a sesiynau hyfforddi i athletwyr unigol yn rheolaidd.

## ARCHWILIO SWYDDI...

- Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Gweithrediadau
- Cynnal a chadw
- Arlwyo a Chadw Tŷ



Y Ganolfan Genedlaethol » Gwasanaethau Cwsmeriaid

# GWASANAETHAU CWSMERIAID

Mae'r tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn croesawu staff a chwsmeriaid i'r adeilad. Maent yn gyfrifol am drefnu archebion i aelodau, clybiau a Chyrff Rheoli Cenedlaethol gael mynediad i gyfleusterau'r Ganolfan. Nhw sydd wrth law yn gyntaf i sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'r Ganolfan yn cael gofal da.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

**Swyddog Gweinyddol / Derbynnydd** → **Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid Cynorthwyol** → **Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid**

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
| --- | --- |
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | Profiad Canolfan Chwaraeon a Hamdden neu Radd mewn Gwyddor Chwaraeon |

Ystod Cyflog: **£22,000 - £50,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Ganolfan Genedlaethol £61,000 - £65,000



# GWEITHREDIADAU

Gan weithio'n agos gyda'r tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid, mae'r tîm Gweithrediadau yn sicrhau bod y cyfleusterau'n ddiogel ac wedi'u sefydlu yn unol ag anghenion ein defnyddwyr. Mae'r trefniadau hyn yn amrywio o ddosbarthiadau ffitrwydd i hyfforddiant sgwad i ddigwyddiadau cymhwyso Olympaidd.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

**Cynorthwy-ydd Gweithrediadau** → **Rheolwr Gweithrediadau Cynorthwyol** → **Rheolwr Gweithrediadau**

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
|---|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | Profiad Chwaraeon a Hamdden<br>Gradd israddedig mewn Gwyddor Chwaraeon |




**Ystod Cyflog: £22,000 - £65,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Ganolfan Genedlaethol - £61,000 - £65,000

Y Ganolfan Genedlaethol » Cynnal a chadw

# CYNNAL A CHADW

Mae'r tîm Cynnal a Chadw yn gofalu am ein hadeilad. Maen nhw'n gyfrifol am sicrhau bod pob rhan o'r Ganolfan Genedlaethol yn gweithio'n iawn fel bod cwsmeriaid a staff yn gallu cael mynediad at gyfleusterau'n ddiogel ac yn effeithlon.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

**Plymiwr / Trydanwr / Saer Coed** → **Rheolwr Cynnal a Chadw**

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg |
| Diploma Lefel 3 mewn peirianneg fecanyddol neu drydanol |
| NVQ Lefel 2 mewn plymio a gwresogi neu NVQ Lefel 2 mewn paentio ac addurno neu NVQ Lefel 2 mewn Gwaith Saer |

Ystod Cyflog: **£24,000 - £40,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Ganolfan Genedlaethol £61,000 - £65,000



# ARLWYO A CHADW TŶ

Mae'r tîm Arlwyo a Chadw Tŷ ar y safle i ddarparu prydau maethlon i staff, athletwyr ac aelodau'r cyhoedd wrth iddynt ymweld â'r ganolfan ac i sicrhau bod gan y sgwadiau hyfforddi amgylchedd cyfforddus i gael cwsg rhwng eu sesiynau.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Cynorthwy-ydd Arlwyo / Cadw Tŷ → Cogydd → Rheolwr Arlwyo a Chadw Tŷ Cynorthwyol → Rheolwr Arlwyo a Chadw Tŷ

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
|---|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | Profiad goruchwylio/rheoli |
| Cogydd - Diploma Lefel 2 mewn Coginio Proffesiynol (neu gyfatebol) | Cymhwyster uwch mewn Diogelwch Bwyd |



Ystod Cyflog: **£22,000 - £40,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Ganolfan Genedlaethol £61,000 - £65,000

# YR ATHROFA

Mae'r staff yn Athrofa Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag athletwyr iau a hŷn Cymru a'u hyfforddwyr i'w helpu i gyflawni llwyddiant yn eu camp a'r tu allan iddi.

## ARCHWILIO SWYDDI...

- Maethegydd Perfformiad
- Ffisiotherapydd Chwaraeon
- Therapydd Meinwe Meddal
- Ffisiolegydd
- Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru
- Seicolegydd Chwaraeon
- Cynghorydd Ffordd o Fyw yn Perfformio
- Dadansoddwr Perfformiad



# YR ATHROFA

Mae'r staff yn Athrofa Chwaraeon Cymru yn gweithio gydag athletwyr iau a hŷn Cymru a'u hyfforddwyr i'w helpu i gyflawni llwyddiant yn eu camp a'r tu allan iddi.

## ARCHWILIO SWYDDI...

- Maethegydd Perfformiad
- Ffisiotherapydd Chwaraeon
- Therapydd Meinwe Meddal
- Ffisiolegydd
- Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru
- Seicolegydd Chwaraeon
- Cynghorydd Ffordd o Fyw yn Perfformio
- Dadansoddwr Perfformiad



# MAETHEGYDD PERFFORMIAD

Mae Maethegydd Perfformiad yn arbenigwr mewn deiet a maeth. Mae'n helpu athletwyr i wella eu perfformiad chwaraeon drwy'r bwydydd mae'n eu bwyta.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

**Graddedig** → **Ymarferydd** → **Arweinydd Ymarferydd** → **Pennaeth Disgyblaeth**

## Cymwysterau:

| **Lefel Mynediad:** |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Gwyddoniaeth Safon Uwch gan gynnwys Bioleg a/neu Addysg Gorfforol |
| Gradd israddedig mewn maeth/deieteteg/gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff |
| Astudiaeth ôl-raddedig (tystysgrif, diploma neu radd meistr) mewn Maeth Chwaraeon ac Ymarfer Corff |

Ystod Cyflog: **£25,000 - £60,000**



# FFISIOTHERAPYDD CHWARAEON

Mae Ffisiotherapydd Chwaraeon yn asesu ac yn trin anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon. Mae'n helpu athletwyr i adennill cryfder a symudiad ar ôl anaf.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Graddedig → Ymarferydd → Arweinydd Ymarferydd → Pennaeth Disgyblaeth

## Cymwysterau:

| **Lefel Mynediad:** |
| --- |
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Safon Uwch gan gynnwys Bioleg a/neu Addysg Gorfforol |
| Gradd israddedig mewn Ffisiotherapi |

Ystod Cyflog: **£28,000 - £60,000**



# THERAPYDD MEINWE MEDDAL

Gelwir therapydd meinwe meddal hefyd yn Therapydd Tylino Chwaraeon. Mae'n gweithio gydag athletwyr i'w helpu i wella ar ôl, a pharatoi ar gyfer, digwyddiadau chwaraeon a hefyd lleihau'r risg o anafiadau.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Graddedig → Ymarferydd → Arweinydd Ymarferydd

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
| --- |
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Safon Uwch gan gynnwys Bioleg a/neu Addysg Gorfforol |
| Cymhwyster proffesiynol a gydnabyddir yn genedlaethol mewn Tylino Chwaraeon |

Ystod Cyflog: **£22,000 - £40,000**



Yr Athrofa » Ffisiolegydd

# FFISIOLEGYDD

Mae Ffisiolegydd Chwaraeon yn arbenigwr ar y corff dynol. Mae'n defnyddio profion i fesur sut mae ymarfer corff yn effeithio ar wahanol rannau o gorff athletwr fel
ei fod yn gallu cynghori'r athletwr a'i hyfforddwr ar sut i wella ei berfformiad.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Graddedig » Ymarferydd » Arweinydd Ymarferydd » Pennaeth Disgyblaeth




## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Safon Uwch gan gynnwys Bioleg a/neu Addysg Gorfforol |
| Gradd israddedig mewn Gwyddor Chwaraeon/Ffisioleg Ddynol |
| Gradd Meistr mewn Ffisioleg Ymarfer Corff/Ffisioleg Gymhwysol |

Ystod Cyflog: **£25,000 - £60,000**

# HYFFORDDWR CRYFDER A CHYFLYRU

Mae Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru yn dangos i athletwyr pa ymarfer corff sydd angen iddynt ei wneud i wella eu perfformiad.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Graddedig → Ymarferydd → Arweinydd Ymarferydd → Pennaeth Disgyblaeth

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Safon Uwch gan gynnwys Bioleg a/neu Addysg Gorfforol |
| Gradd israddedig mewn Gwyddor Chwaraeon/Cryfder a Chyflyru |

Ystod Cyflog: **£25,000 - £60,000**



# SEICOLEGYDD CHWARAEON

Mae Seicolegwyr Chwaraeon yn helpu athletwyr i wella eu perfformiad chwaraeon drwy weithio gyda hwy ar ffactorau meddyliol a allai effeithio ar berfformiad athletaidd fel cymhelliant, rheoli straen, delweddu a gwaith tîm effeithiol.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Graddedig → Ymarferydd → Arweinydd Ymarferydd → Pennaeth Disgyblaeth

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Safon Uwch gan gynnwys Bioleg a/neu Addysg Gorfforol |
| Gradd israddedig mewn Seicoleg / Seicoleg Chwaraeon / Gwyddoniaeth Chwaraeon |
| Gradd Meistr mewn Seicoleg Chwaraeon |

Ystod Cyflog: **£25,000 - £60,000**



Yr Athrofa » Cynghorydd Ffordd o Fyw yn Perfformio

# CYNGHORYDD FFORDD O FYW YN PERFFORMIO

Mae Cynghorydd Ffordd o Fyw yn Perfformio yn gweithio gydag athletwyr i nodi newidiadau y gallant eu gwneud i'w ffordd o fyw i wella perfformiad athletaidd.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Graddedig → Ymarferydd → Arweinydd Ymarferydd → Pennaeth Disgyblaeth

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
| --- |
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Safon Uwch gan gynnwys Bioleg a/neu Addysg Gorfforol |
| Gradd israddedig mewn Gwyddor Chwaraeon/Hyfforddi Chwaraeon/Rheoli Chwaraeon |

Ystod Cyflog: **£25,000 - £60,000**



# DADANSODDWR PERFFORMIAD

Mae Dadansoddwr Perfformiad yn defnyddio data ac arsylwi gweledol o athletwyr ar waith i wella eu perfformiad athletaidd.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Graddedig → Ymarferydd → Arweinydd Ymarferydd → Pennaeth Disgyblaeth

## Cymwysterau:

**Lefel Mynediad:**

- TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth
- Gradd israddedig mewn Dadansoddi Perfformiad/Gwyddor Chwaraeon/Gwyddor Data neu gymhwyster tebyg

**I symud ymlaen:**

Gradd Meistr mewn Dadansoddi Perfformiad Chwaraeon/ Dadansoddeg Chwaraeon/ Gwyddoniaeth Data neu debyg



Ystod Cyflog: **£22,000 - £60,000**

# GWASANAETHAU BUSNES

## ARCHWILIO SWYDDI...

- Adnoddau Dynol (AD)
- Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyllid
- TGCh
- Llywodraethu Corfforaethol



# ADNODDAU DYNOL (AD)

Mae AD yn gofalu am y bobl sy'n gweithio yn Chwaraeon Cymru. Maen nhw'n gyfrifol am gael y bobl briodol i'r swyddi priodol, rhoi'r adnoddau sydd arnyn nhw eu hangen i wneud eu gorau a gwneud yn siŵr bod gwaith yn fan lle maen nhw'n teimlo bod ganddyn nhw gefnogaeth dda.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Gweinyddydd AD → Swyddog AD → Swyddog AD Uwch → Rheolwr AD

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg |

| I symud ymlaen: |
|---|
| Profiad AD |
| Cymhwyster AD |



Ystod Cyflog: **£24,000 – £50,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol uy Gwasanaethau Busnes - £61,000 - £65,000

# RHEOLWR CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT


Swydd Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yw helpu i greu gweithle lle gall pobl fod yn nhw eu hunain heb boeni am gael eu trin yn annheg.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

**Amrywiol!**

## Cymwysterau:

| **Lefel Mynediad:** |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg |
| Profiad perthnasol |



Ystod Cyflog: **£45,000 – £50,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Busnes £61,000 - £65,000

# CYLLID

Mae'r tîm Cyllid yn sicrhau bod cyflenwyr Chwaraeon Cymru yn cael eu talu ar amser, bod Chwaraeon Cymru yn cael ei dalu am ddefnyddio'i gyfleusterau ar amser, a bod staff Chwaraeon Cymru yn cael eu talu am eu gwaith yn briodol ac ar amser. Mae hefyd yn gwneud yn siŵr bod yr arian a gawn gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri yn cael ei wario'n briodol, i gefnogi'r sector chwaraeon.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Swyddog Cyfriflyfr Prynu/Cyfriflyfr Gwerthu → Cyfrifydd/Swyddog Cyflogres → Uwch Gyfrifydd → Pennaeth Cyllid

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
|---|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | Gradd israddedig mewn cyllid / cymhwyster cyllid a gydnabyddir yn genedlaethol |



Ystod Cyflog: **£24,000 – £60,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Busnes £61,000 - £65,000

# TGCH

Mae'r tîm TGCh yn gofalu am y dechnoleg yn Chwaraeon Cymru. Nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan staff Chwaraeon Cymru yr offer a'r adnoddau technolegol priodol i wneud eu gwaith yn effeithiol, gan gadw'r offer mewn cyflwr da a helpu staff i ddeall sut i ddefnyddio'r offer yn effeithiol.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

**Technegydd Desg Gwasanaeth** → **Rheolwr Desg Gwasanaeth** → **Arweinydd Technegol** → **Rheolwr TGCh**

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
| --- | --- |
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg a TG | Profiad TG perthnasol / gradd israddedig mewn Gwyddoniaeth Gyfrifiadurol neu debyg |




Ystod Cyflog: **£24,000 – £50,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Busnes £61,000 - £65,000

Gwasanaethau Busnes » Llywodraethu Corfforaethol

# LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r tîm Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau bod popeth y mae Chwaraeon Cymru yn ei wneud yn unol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau a bennir gan Lywodraeth Cymru

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

**Swyddog Llywodraethu Corfforaethol** → **Uwch Swyddog Llywodraethu Corfforaethol** → **Arweinydd Llywodraethu Corfforaethol**

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
|---|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | Gradd berthnasol / profiad perthnasol |



Ystod Cyflog: **£26,000 – £50,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Busnes £61,000 - £65,000

# RHEOLI PERTHNASOEDD



# RHEOLI PERTHNASOEDD

Mae'r tîm Rheoli Perthnasoedd yn ymwneud â chefnogi eraill i wneud i chwaraeon ddigwydd. Maent yn gweithio'n agos gyda llawer o wahanol sefydliadau i'w helpu i wneud chwaraeon yn hwyl, yn gynhwysol, yn ddiogel ac yn bleserus.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Swyddog Perthnasoedd → Rheolwr Perthnasoedd → Pennaeth Rheoli Perthnasoedd

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
|---|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus |
| Profiad perthnasol o reoli perthnasoedd/arweinyddiaeth | |

Ystod Cyflog: **£32,000 – £50,000**



# LLYWODRAETHU



# LLYWODRAETHU

Mae'r tîm Llywodraethu yn gwneud yn siŵr bod Chwaraeon Cymru yn buddsoddi arian y llywodraeth ac arian y loteri mewn sefydliadau sy'n bodloni'r safonau rydym yn eu gosod. Mae'r safonau hyn yn bodoi i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â chwaraeon yn ddiogel ac yn cael eu trin yn deg ac nad ydynt yn torri unrhyw reolau chwaraeon. Maent yn cefnogi sefydliadau i ddatblygu'r meysydd hyn i'w helpu i fod y gorau y gallant fod.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Swyddog Cefnogi Llywodraethu → Swyddog Llywodraethu / Datblygu Pobl / Hyfforddi → Arweinydd Llywodraethu / Datblygu Pobl / Hyfforddi → Pennaeth Llywodraethu a Datblygu Pobl

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
|---|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | Gradd israddedig berthnasol<br>profiad perthnasol |

Ystod Cyflog: **£24,000 – £60,000**



sportwales chwaraeoncymru



# DATBLYGU PARTNERIAID A GWASANAETHAU



# DATBLYGU PARTNERIAID A GWASANAETHAU

Mae'r tîm Datblygu Partneriaid a Gwasanaethau yn gweithio gyda llawer o sefydliadau gwahanol i greu cyfleoedd chwaraeon i bobl o bob oedran a chefndir ac mae wedi'i rannu'n dri maes - Addysg, Iechyd a Datblygu Gwasanaethau.

Maen nhw'n gweithio gyda sefydliadau fel Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod chwaraeon bob amser yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau dysgu a gydag athrawon ac ysgolion i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw bopeth sydd arnyn nhw ei angen i hyrwyddo gweithgarwch corfforol mewn ffordd hwyliog a deniadol i ddisgyblion. Maent yn edrych ar ffyrdd y gall chwaraeon helpu i ddarparu buddion iechyd corfforol a meddyliol da. Ac maen nhw bob amser yn chwilio am ffyrdd o sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad hawdd at wasanaethau Chwaraeon Cymru.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Swyddog Datblygu Gwasanaethau a Phartneriaid / Cynllunio Gwasanaethau → Uwch Swyddog → Arweinydd → Pennaeth Datblygu Gwasanaethau a Phartneriaid

## Cymwysterau

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
| --- | --- |
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | gradd israddedig berthnasol, cymhwyster proffesiynol neu brofiad perthnasol |
| Profiad perthnasol | |

Ystod Cyflog: **£36,000 – £60,000**



# BUDDSODDIADAU



# BUDDSODDIADAU

Mae'r tîm buddsoddiadau yn cefnogi clybiau a sefydliadau i wneud cais am gyllid. Mae Chwaraeon Cymru yn rhoi miliynau o bunnoedd bob blwyddyn i helpu gyda datblygu hyfforddwyr, prynu offer neu wella cyfleusterau. Mae'r tîm buddsoddiadau yn gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod grwpiau cymunedol lleol yn gallu cael
y cymorth sydd arnynt ei angen i wneud i chwaraeon ddigwydd.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Swyddog Buddsoddiadau → Uwch Swyddog Buddsoddiadau → Rheolwr Buddsoddiadau

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
| --- |
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg |
| Profiad Gwasanaethau Cwsmeriaid |

| I symud ymlaen: |
| --- |
| Gradd israddedig berthnasol neu brofiad perthnasol |



Ystod Cyflog: **£24,000 – £50,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus £61,000 - £65,000

# DIRNADAETH, POLISI A MATERION CYHOEDDUS



# DIRNADAETH, POLISI A MATERION CYHOEDDUS

## Dirnadaeth

Mae'r tîm Dirnadaeth yn casglu gwybodaeth am chwaraeon yng Nghymru. Maen nhw'n gwneud llawer o wahanol fathau o ymchwil ac yn darganfod pam mae pobl yn hoffi chwaraeon a beth sy'n eu hatal rhag cymryd rhan. Wedyn maen nhw'n rhannu'r hyn maen nhw'n ei ddarganfod gyda phawb, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol am chwaraeon yng Nghymru, fel ein bod ni i gyd yn gallu gwneud Cymru yn lle mwy actif ac iach.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Swyddog Dirnadaeth → Uwch Swyddog Dirnadaeth → Arweinydd Dirnadaeth → Rheolwr Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus

## Cymwysterau:

| **Lefel Mynediad:** |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Safon Uwch |
| Gradd israddedig sy'n cynnwys ymchwil |

Ystod Cyflog: **£32,000 – £50,000**



Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus - £61,000 - £65,000

# DIRNADAETH, POLISI A MATERION CYHOEDDUS

## Polisi a Materion Cyhoeddus

Mae'r tîm Polisi a Materion Cyhoeddus yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion chwaraeon yng Nghymru. Eu prif nod yw tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol y mae chwaraeon yn ei chael ar bob maes o ddiddordeb gwleidyddol.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Swyddog Polisi → Uwch Swyddog Polisi → Arweinydd Polisi → Rheolwr Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: |
|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth |
| Safon Uwch |
| Gradd israddedig/profiad perthnasol |



Ystod Cyflog: **£32,000 – £50,000**

Dyrchafiad posib i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus - £61,000 - £65,000

# CYFATHREBU



Cyfathrebu

# CYFATHREBU

Mae'r tîm Cyfathrebu yn gyfrifol am ddarganfod y ffordd orau o rannu negeseuon hollbwysig Chwaraeon Cymru gyda'r genedl i sicrhau bod y negeseuon hynny'n cyrraedd cymaint o bobl ac yn cael cymaint o effaith â phosibl. Maen nhw'n chwarae rhan bwysig wrth ddod â chenhadaeth y sefydliad yn fyw drwy adrodd straeon am sut mae chwaraeon yn elwa ac yn trawsnewid bywydau pobl.

## Llwybr gyrfa nodweddiadol:

Cynorthwy-ydd Cyfathrebu → Swyddog Cyfathrebu → Rheolwr Cyfathrebu ag arbenigedd → Cyfarwyddwr Cyfathrebu Cynorthwyol

## Cymwysterau:

| Lefel Mynediad: | I symud ymlaen: |
|---|---|
| TGAU gan gynnwys Mathemateg a Saesneg | Gradd israddedig/profiad perthnasol |

Ystod Cyflog: **£24,000 – £65,000**



# PRENTISIAETHAU A CHYNLLUNIAU GRADDEDIGION



# PRENTISIAETHAU A CHYNLLUNIAU GRADDEDIGION

Yn Chwaraeon Cymru rydyn ni hefyd yn cydnabod y gall pobl o gefndiroedd a phrofiadau gwahanol wynebu rhwystrau i gael y cymwysterau sydd arnynt eu hangen i gael y swyddi maent eu heisiau mewn gwirionedd. Ac nid ydym yn meddwl bod hynny'n deg. Felly, rydym wedi creu rhai cyfleoedd i'r bobl a allai wynebu'r rhwystrau hynny, i gael eu cymwysterau wrth weithio gyda ni.

## PRENTISIAETHAU DIGIDOL

Mae ein Prentisiaid Digidol yn astudio un diwrnod yr wythnos yn y brifysgol ac yn gweithio am y pedwar diwrnod arall yn Chwaraeon Cymru, gan gymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn eu hastudiaethau yn y gwaith. Gall gweithio fel Prentis Digidol gynnwys amrywiaeth o dasgau, fel helpu pobl i ddatrys problemau TG neu greu cynnwys digidol fel adeiladu gwefannau. Yn ystod y brentisiaeth tair blynedd, mae cyflog llawn amser yn cael ei dalu i'n prentisiaid ac ar ddiwedd y tair blynedd, byddant yn graddio o'r brifysgol gyda gradd israddedig mewn Peirianneg Meddalwedd Cymhwysol.

Ystod Cyflog: **£24,000 – £27,000**

## CYNLLUN GRADDEDIGION YR ATHROFA

Mae'r Athrofa hefyd yn cynnig cynllun i raddedigion i bobl sydd wedi gwneud gradd israddedig Gwyddor Chwaraeon ac a hoffai wneud gradd meistr arbenigol. Maent yn astudio dau ddiwrnod yr wythnos yn y brifysgol ac yn gweithio am y tridiau arall yn Chwaraeon Cymru, gan gymhwyso'r hyn maent wedi'i ddysgu yn eu hastudiaethau yn y gwaith drwy gefnogi gwahanol brosiectau. Yn ystod y cynllun dwy flynedd i raddedigion, mae cyflog llawn amser yn cael ei dalu i'n graddedigion ac ar ddiwedd y ddwy flynedd, byddant yn graddio o'r brifysgol gyda gradd meistr yn eu pwnc arbenigol.



sportwales
chwaraeoncymru